Cofnodion Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 22 Chwefror 2016 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Cynghorydd Anne Roberts (Maer)
Y Cynghorwyr Stephen Beach, Ken Hawkins, Menna Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Geraint Woolford, Heather Williams ac Emrys Wynne.
Hefyd y Cynghorydd Sir Bobby Feeley.

179. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr James Bryan ac Elisabeth Culshaw.

180. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

181. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei bod wedi bod yn bresennol yn yr isod ers y cyfarfod diwethaf:

25/01 Ymweliad â noson hyfforddiant ATC i ddyrchafu'r Cadet Moore yn Gorporal
27/01 Cyfarfod â Geraint Parry, Pennaeth Ysgol Brynhyfryd, i drafod Gwobr Person Ifanc y Flwyddyn Rhuthun a materion eraill
Ymweld â Ruthin School i drafod Gwobr Person Ifanc y Flwyddyn
Pryd ffarwelio Dafydd Williams yn y Myddelton Grill
01/02 Cyfarfod Ymlaen Rhuthun
02/02 Cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun, Neuadd y Dref
09/02 Rasys crempog, Sgwâr Sant Pedr
12/02 Ymweliad ag Ysgol Borthyn i gyflwyno tystysgrifau
15/02 Ymweliad â chwmni RubberTech, Lôn Parcwr
16/02 Cyfarfod â'r Arolygydd Gareth Jones, Gorsaf Heddlu Rhuthun
18/02 Gwahoddiad i wylio cynhyrchiad Cymdeithas Pantomeim Rhuthun, Jac a'r Goeden Ffa
19/02 Cyfleusterau Gofal Dydd Valley View, Llanferres, Diwrnod Agored

182. ADRODDIADAU'R AELODAU

Y Cynghorydd Stephen Beach	Ymweliad â noson hyfforddiant ATC, pryd ffarwelio Dafydd Williams, cyfarfod Llywodraethwyr yn Ysgol Stryd y Rhos, rasys crempog, Fforwm Hubbub i'r rhai dros 50 oed a phantomeim Rhuthun
Y Cynghorydd Bob Costain	Pryd ffarwelio Dafydd Williams
Y Cynghorydd Ken Hawkins	Pryd ffarwelio Dafydd Williams a'r rasys crempog.
Y Cynghorydd Menna Jones	Pryd ffarwelio Dafydd Williams, cyfarfod Llywodraethwyr yn Ysgol Borthyn a Fforwm Hubbub i'r rhai dros 50 oed
Y Cynghorydd Ian Lewney	Pryd ffarwelio Dafydd Williams, rasys crempog, cyfarfod Tîm Tref Rhuthun a phantomeim Rhuthun
Y Cynghorydd Robert Owen-Ellis	Banc bwyd x 4, pryd ffarwelio Dafydd Williams, cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun, cyfarfod â pheiriannwyr Cyngor Sir Ddinbych ynghylch y cynlluniau ar gyfer Ysgol Pen Barras newydd a chyfarfod safle cynllunio.
Y Cynghorydd Geraint Woolford	Pryd ffarwelio Dafydd Williams, Fforwm Hubbub i'r rhai dros 50 oed, cyfarfod â'r Heddlu a chyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun.
Y Cynghorydd Emrys Wynne	Pryd ffarwelio Dafydd Williams a'r rasys crempog.

183. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2016 fel cofnodion cywir, yn amodol ar gywiro adroddiad a hepgorwyd fod y Cynghorydd Menna Jones yn bresennol yn agoriad swyddogol y Stiwdio yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun.*

184. MATERION YN CODI

Darllenodd y Maer lythyr o ddiolch gan y Clerc wedi ymddeol, Dafydd Williams, yn diolch am y pryd ffarwelio a'i anrheg. Roedd tri aelod yn dymuno talu am y pryd o'u harian eu hunain, a rhoesant arian i'r Maer i'w ad-dalu i Lwfans y Maer.

185. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Gadeirydd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2016.
***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

186. PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cyflwynodd Gadeirydd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2016.
***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

187. TWRISTIAETH BYSIAU MOETHUS

Amlinellodd y Cynghorydd Heather Williams y 'gofynion sylfaenol' ar gyfer hyrwyddo twristiaeth bysiau moethus ac awgrymodd fod Canolfan Grefft Rhuthun yn bodloni'r mwyafrif ohonynt. Dywedodd yr aelodau fod mannau parcio bysiau ym maes parcio Heol y Parc a bod gan Ganolfan Arddio Seven Oaks ddiddordeb mewn denu twristiaid bysiau moethus hefyd.
***PENDERFYNWYD**: y dylai'r Cynghorydd Heather Williams gynrychioli Cyngor Tref Rhuthun yng nghyfarfod nesaf Twristiaeth Bysiau Moethus wedi'i drefnu gan Gyngor Sir Ddinbych ar 18 Ebrill.*

188. ASESIAD RISG BLYNYDDOL

Cyflwynodd y Clerc yr Asesiad Risg ar gyfer 2016/17. Awgrymodd y Clerc y byddai system gwneud copi wrth gefn o'r ffeiliau cyfrifiadurol yn awtomatig oddi ar y safle yn lleihau'r risg o ran colli cofnodion y Cyngor ac fe'i hawdurdodwyd i ymchwilio i hyn. Awgrymwyd hefyd fod angen ymchwilio i berchnogaeth y Gofeb Rhyfel a Chofeb Joseph Peers.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau'r Asesiad Risg Blynyddol.*

189. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL

Cyflwynodd y Clerc y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau'r Asesiad Risg Blynyddol.*

190. YMGYRCH TACLUSO'R DREF

Gofynnwyd i'r aelodau awgrymu dyddiadau ar gyfer Ymgyrch Tacluso'r Dref 2016.
***PENDERFYNWYD**: cyfeirio'r defer this matter to the Amenities Committee meeting.*

191. CAIS AM GYFRANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan Nick Birch, Trysorydd Siambr Fasnach Rhuthun, i drosglwyddo'r £500 yn y gyllideb ar gyfer y mudiad hwn ym mlynyddoedd ariannol 2015/16 a 2014/15, ac ystyried parhau i roi cymorth ariannol yn 2016/17.
***PENDERFYNWYD**: gofyn am ragor o fanylion ynghylch gwariant yr arian h.y. dyddiadau'r marchnadoedd a chostau cau'r ffyrdd.*

192. GOHEBIAETH

Derbyniodd yr Aelodau wahoddiad i ymuno ag Un Llais Cymru, noson gyflwyno flynyddol Urdd Cyfeillion Ysbyty Glan Clwyd, llythyr Members received an invitation to join One Voice Wales, to Ysbyty Glan Clwyd League of Friends annual presentation evening, llythyr oddi wrth yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda a Rheoli Cofnodion yn Dda a llythyr oddi wrth yr Urdd yn gofyn am gyfraniad tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2016 i'w chynnal yn Sir y Fflint.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r ohebiaeth ac anfon ateb at Un Llais Cymru yn datgan y rhesymau pam fod yr aelodau wedi penderfynu peidio ag ymaelodi â'r mudiad hwn, ac i roi cyfraniad o £100 i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2016.*

193. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel y Swyddog Ariannol Cyfrifol, y Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Ionawr 2016.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

194. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: awdurdodi talu'r cyfrifon isod.*

854	Sandra Williams	Stampiau		21.60
855	Fineline Retail	Nwyddau swyddfa – amlenni a cherdyn	*	34.40
D.U.	BT Business	Gwasanaethau band eang	*	71.40
856	Gwasanaethau Coed Cymru	Coed Nadolig 2016 ac ailosod y goeden ger Gorsaf Betrol y Dyffryn yn dilyn difrod storm	*	1,320.00
857	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	108.00
858	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd (TAW anfoneb mis Ionawr)	*	18.00
859	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		259.43
860	Aerial Electrics Limited	Gosod goleuadau Nadolig LED ar y coed Nadolig a thynnu'r harneisiau goleuadau i'w storio	*	3,792.00
861	Cyngor Sir Ddinbych	Casglu, gosod a thynnu'r goleuadau Nadolig	*	4,518.54
862	Siambr Fasnach Rhuthun	Cyfraniadau 2014/15 a 2015/16		1,000.00
863	The Play Inspection Co. Ltd	Arolygiad Blynyddol y Parc Sgrialu a'r Caeau Chwarae Coffa	*	156.00
864	Y Bedol	Hysbyseb Gwobr Dinesydd Da yn Y Bedol		20.00

(Yr eitemau wedi eu cofnodi â * yn cynnwys TAW adferadwy o £1,835.34)

195. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fydd dydd Llun, 21 Mawrth 2016.*